Gadewch i ni ddechrau

Cwricwlwm newydd yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd

Gadewch i ni ddechrau

Mae'r byd yn newid. Mae yna lawer o heriau newydd a fydd yn galw am dechnoleg newydd a syniadau newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisiau ichi gael y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau y bydd eu hangen arnoch chi i lwyddo.

Felly mae'r cwricwlwm yn eich ysgol yn newid.

Mae'r Cwricwlwm am fwy na dim ond dysgu. Mae hefyd am sut rydych chi'n dysgu a'r rhesymau pam eich bod chi'n dysgu.

Fe fydd cwricwlwm newydd eich ysgol yn siwrnai o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau.

- **Athrawon sy'n ei lunio.**
  Fe fyddan nhw'n cynllunio'r gwersi a'r dysgu a fydd yn eich helpu chi i fod yn barod ar gyfer eich dyfodol. Fe fyddan nhw'n gweithio gydag ysgolion eraill ac yn cael canllawiau y mae athrawon eraill wedi'u hysgrifennu i'w helpu nhw.

- **Mae wedi'i adeiladu ar gyfer pob plentyn.**
  Fe fydd y cwricwlwm newydd yn eich cefnogi chi trwy gyfrwng gwersi creadigol sydd ag ystyr mewn bywyd go iawn. Fe fydd yn eich helpu chi i fyfyrio a meddwl am beth rydych chi wedi'i ddysgu, ac i symud ymlaen.

- **Mae wedi'i wneud ar gyfer byd sy'n newid yn gyflym.**
  Mae'r byd yn fwy cysylltiedig felly fe fydd y pynciau y byddwch chi'n eu dysgu'n fwy cysylltiedig hefyd. Mae gwybodaeth yn dal i fod yn bwysig iawn, felly fe fydd y cwricwlwm yn rhoi sgiliau a chyfleoedd ichi ddatblygu.

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych chi am y pethau a fydd yn newid.

Y pedwar diben

Y pedwar diben hyn fydd y sail i bopeth y byddwch chi'n ei ddysgu.

Fe fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael cefnogaeth i fod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i chwarae eu rhan yng Nghymru a'r byd
- **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.





Meysydd dysgu a phrofiad

Mae'r cwricwlwm newydd yn edrych ar sut i'ch helpu chi i gysylltu'ch dysgu.

Yn ogystal â dysgu **sgiliau llythrennedd a rhifedd** a **sgiliau digidol**, fe fydd yna chwe maes dysgu a phrofiad. Efallai nad dyna fydd enwau'r gwersi y byddwch chi'n eu cael, ond fe fydd gan bopeth y byddwch chi'n ei ddysgu gysylltiad â'r meysydd hyn.

Fe ddylai'r cwricwlwm y mae'ch ysgol yn ei ddatblygu gwmpasu:

- hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
- profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd a'r gweithle
- agweddau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar bopeth sy'n cael ei ddysgu.

Mae'n rhaid iddyn nhw eich dysgu chi am berthnasoedd ac addysg rhywioldeb hefyd.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Archwilio'r celfyddydau fel eich bod chi'n dysgu defnyddio'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dychymyg i greu.

Dysgu gwerthfawrogi'r celfyddydau a myfyrio ar eich gwaith eich hun.

Iechyd a Lles

Dysgu am fwyta'n iach a pherthnasoedd iach.

Dysgu gwneud penderfyniadau da a delio â dylanwadau.

Dysgu sut i ofalu am eich iechyd meddwl a'ch lles emosiynol.

Y Dyniaethau

Archwilio hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau, busnesau, diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru ac o amgylch y byd.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Dysgu am ieithoedd.

Deall a defnyddio'r Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill.

Deall a chreu llenyddiaeth.

Mathemateg a Rhifedd

Deall rhifau.

Deall rhifau a defnyddio symbolau mewn mathemateg.

Archwilio siapiau a mesuriadau.

Dysgu am ystadegau a thebygolrwydd.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Deall pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg.

Dysgu am ddylunio a pheirianneg, pethau byw, sylwedd, grymoedd ac egni, a sut y mae cyfrifiaduron yn gweithio.

Sgiliau bywyd pwysig

Yn ogystal â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, fe fydd gan y cwricwlwm newydd fwy o gyfleoedd ichi ddysgu sgiliau.

Sgiliau creadigrwydd ac arloesi

Fe fyddwch chi'n cael cyfleoedd i archwilio, cyfathrebu, creu cynlluniau a dod o hyd i atebion.

Sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Fe fyddwch chi'n cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau, edrych ar dystiolaeth, gwneud penderfyniadau a datrys problemau.

Effeithiolrwydd personol

Fe fyddwch chi'n dysgu gwneud yn fawr o'ch amser a'ch doniau. Fe fyddwch chi'n cael cefnogaeth i ddod yn fwy hyderus, dod yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau cymdeithasol, diwylliannol a egwyddorol a dysgu o'ch camgymeriadau.

Sgiliau cynllunio a threfnu

Fe fyddwch chi'n dysgu rheoli'ch amser, gosod nodau, gwneud penderfyniadau a gwirio'ch gwaith.

Beth Sy'n Bwysig

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod eich dysgu'n canolbwyntio ar bethau sy'n bwysig i chi nawr ac yn eich bywyd fel oedolyn.

Mae gan bob maes dysgu a phrofiad **Ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig wrth ddysgu.** Maen nhw'n eich helpu chi i feddwl am beth rydych chi'n ei ddysgu. Maen nhw'n eich helpu chi i weld sut y mae testunau'n cysylltu ac yn cysylltu â gwaith ac â bywyd.

Mae **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** yn gallu'ch helpu chi i gwneud cysylltiadau. Wrth ichi ddysgu mwy, fe fyddwch chi'n cydgysylltu'ch dysgu yn fwy.

Dyma enghraifft o sut y mae'n gweithio

Ym maes dysgu a phrofiad y **Celfyddydau Mynegiannol**, un o'r **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** ydy:

Mae ymgysylltu â'r celfyddydau'n helpu i feithrin a datblygu'ch creadigrwydd.

Wrth ichi ddatblygu a meddwl am eich dysgu, fe fyddwch chi'n cael profiadau gwahanol:



Symud ymlaen

Siwrnai ydy'r cwricwlwm newydd – yn cynyddu'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiadau.

Mae'n bosibl y bydd yna adegau pan fyddwch chi:

- yn symud ymlaen yn gyflym
- yn arafu i wneud yn siŵr eich bod chi'n deall pwnc
- yn gwyro oddi ar y llwybr oherwydd eich bod chi wedi dod ar draws rhywbeth sydd o ddiddordeb i chi.

Dydy symud ymlaen ddim bob amser wedi cysylltu â'ch oedran. Fydd hyn ddim yn digwydd yn yr un ffordd, nac ar yr un pryd i bawb.

Fe fyddwch chi'n symud ymlaen wrth:

- i'ch gwybodaeth gynyddu
- i'ch dealltwriaeth o bethau ddyfnhau
- i'ch sgiliau cyfathrebu ddatblygu
- i'ch sgiliau wella.

Asesu

Fe fydd asesu'n rhan o gwricwlwm eich ysgol ac fe fydd yn rhan o'ch profiad dysgu bob dydd.

Fe fyddwch chi'n gweithio gyda'ch athrawon i ddeall pa mor dda rydych chi'n symud ymlaen. Mae hyn yn bwysig er mwyn:

- eich helpu chi i weld lle rydych chi'n dysgu
- eich helpu chi i gynllunio'ch camau dysgu nesaf
- nodi unrhyw broblemau neu unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnoch chi
- dod o hyd i ffyrdd i'ch ymestyn neu i'ch herio i ddysgu mwy
- helpu athrawon i weld pa mor dda y mae eu dosbarth yn ei wneud.

Paratoi

Mae cael cwricwlwm newydd i Gymru yn gyffrous. Y cam nesaf ydy ei weld yn dod yn fyw mewn ysgolion. Peidiwch â phoeni, fe fydd ysgolion ac athrawon yn dechrau newid y pethau y maen nhw'n eu dysgu a'u ffordd o'u dysgu cyn hyn. Fe fyddan nhw wrthi'n paratoi ar gyfer eu cwricwlwm newydd yn barod.

Fe fydd y cwricwlwm newydd yn dechrau ym mis Medi 2022. Wrth ichi fynd yn hŷn, fe fydd yn tyfu gyda chi.

Yr hen gwricwlwm Y cwricwlwm newydd

	2022	2023	2024	2025	2026
Blwyddyn 11	Yr hen gwricwlwm	Yr hen gwricwlwm	Yr hen gwricwlwm	Yr hen gwricwlwm	Y cwricwlwm newydd
Blwyddyn 10	Yr hen gwricwlwm	Yr hen gwricwlwm	Yr hen gwricwlwm	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd
Blwyddyn 9	Yr hen gwricwlwm	Yr hen gwricwlwm	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd
Blwyddyn 8	Yr hen gwricwlwm	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd
Blwyddyn 7	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd	Y cwricwlwm newydd

a phob un o'r blynyddoedd Cynradd

Sut i gymryd rhan

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn dweud bod gennych chi hawl i gymryd rhan ac i gael dweud eich dweud ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd chi. Felly, rydyn ni eisiau gwybod eich barn chi ar yr hyn rydych chi'n ei ddysgu, sut rydych chi'n dysgu a lle rydych chi'n dysgu.

Fe fydd yna gyfleoedd i chi, eich rhieni a'ch cymuned leol gymryd rhan yng ngwaith datblygu cwricwlwm eich ysgol. Fe fydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i'ch helpu chi i gael yr addysg orau ac i'ch paratoi ar gyfer eich dyfodol.

Diolch am ddarllen hwn

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y cwricwlwm newydd, ewch i:

llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid

@LlC_Addysg

addysgcymru

@dechraucartref

dechraucartref